**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**

Mae delio â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn un o'm prif flaenoriaethau o hyd. Croesawaf Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r cyfle i drafod yr hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi cyfredol felly mae'n bleser gennyf dderbyn y rhan fwyaf ohonynt. Mae angen ystyried rhai ymhellach o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol ond cefnogaf fwriad y camau gweithredu arfaethedig a chredaf y dylid cymryd camau i sicrhau'r canlyniad a fwriedir.

Felly, mae'n bleser gennyf ddatgan cyhoeddiad y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, a gellir dod o hyd iddo ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru [insert link] ar ôl trafodaeth y Cyfarfod Llawn ar 12fed Ionawr 2011. Mae'r cynllun yn amlinellu ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at gefnogi plant a phobl ifanc a'u hatal rhag ymddieithrio o ddysgu a'u cefnogi wrth iddynt ymuno â'r farchnad lafur.

Er mwyn llywio'r cyfeiriad polisi a'r Cynllun Gweithredu, lluniwyd tri darn o waith ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru. Roedd y rhain fel a ganlyn;

- grŵp gorchwyl a gorffen allanol o dan gadeiryddiaeth Martin Mansfield o TUC Cymru a oedd yn edrych yn benodol ar beth arall y dylwn ei wneud i wrthsefyll effeithiau'r dirwasgiad ar bobl ifanc.

- grŵp gweithredol mewnol o swyddogion a gyflwynodd adroddiad i mi ar yr hyn sy'n annog plant a phobl ifanc i ymddieithrio o ddysgu yn y lle cyntaf.

- Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a edrychodd ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc mewn ffordd holistaidd.

Mae'r agenda hon yn un heriol dros ben, yn arbennig yn y cyfnod economaidd hwn. Mae'r dirwasgiad wedi arwain at gynnydd mewn diweithdra yng Nghymru a gwyddom fod pobl ifanc o dan anfantais annheg wrth gystadlu â cheiswyr gwaith hŷn. Fodd bynnag, er gwaethaf setliad heriol gan Lywodraeth y DU, byddwn yn blaenoriaethu hyfforddiant sgiliau, yn anrhydeddu ein hymrwymiad i Lwybrau at Brentisiaethau ac yn parhau i ganolbwyntio ar fentrau ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc.

Rydym eisoes wedi cyflawni llawer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf:

- Rydym yn gwybod bod mwy o bobl ifanc yn aros mewn dysgu neu hyfforddiant nag erioed o'r blaen sy'n dangos bod y mesurau a roddwyd ar waith gennym i fynd i'r afael â'r dirwasgiad a'r pecyn ariannu o dros £49 miliwn a gyhoeddwyd yn uwchgynhadledd economaidd gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010 wedi gweithio.

- Mae tystiolaeth wedi dangos i ni dro ar ôl tro mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wella cyfleoedd bywyd plant yw drwy roi cymorth iddynt yn ystod eu blynyddoedd cynharaf, gan dorri'r cylchoedd negyddol sy'n rhan o fywydau rhai o'n plant a'n pobl ifanc mwyaf difreintiedig. Mae gwaith yn parhau i gefnogi'r plant hyn, megis

y Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol a gyhoeddwyd gennyf y llynedd, y Strategaeth Tlodi Plant a rhaglenni cyfredol megis Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Mae ein Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn sail i'r holl raglenni hyn.

- Mae ein polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn anelu at wella cyrhaeddiad addysgol drwy gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n parhau i gymryd rhan lawn mewn dysgu a nifer y dysgwyr sy'n mynd ymhellach na Dysgu ôl-16. Mae'n anelu at gyflawni hyn drwy roi dewis eang o gyrsiau i bobl ifanc ar Gyfnod Allweddol 4 ac mewn addysg ôl-16 yn ogystal â Chymorth Dysgu a fydd yn eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau at gyfleoedd dysgu ac o ran cyrraedd eu potensial. Erbyn 2015, ein targed yw sicrhau y bydd 95% o bobl ifanc yn barod am swydd sgiliau lefel uwch neu addysg uwch cyn iddynt gyrraedd 25 oed.

- Yn 2009-2010 gwnaethom gyflwyno ystod o fesurau i sicrhau y cynhelir cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc yn ystod y dirywiad economaidd. Roedd y mesurau yn cynnwys y rhaglen Recriwtiaid Ifanc a mentrau Llwybrau at Brentisiaethau. Bydd Llwybrau at Brentisiaethau a Recriwtiaid Ifanc yn parhau eleni ac yn cynnig cyfleoedd i 3,000 o bobl ifanc eraill.

- Rydym hefyd yn gwneud newidiadau i'n Rhaglen Adeiladu Sgiliau, sef ein prif raglen gyflogadwyedd ar gyfer pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn. Bydd y Rhaglen Hyfforddeiaeth ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed yn cymryd ei le ar 1af Awst 2011, a bydd Camau i Gyflogaeth yn ei disodli ar gyfer y rheini sy'n 18 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth. Nod yr Hyfforddeiaeth yw darparu dulliau dysgu unigol i bobl ifanc sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyr ac sy'n cynnig hyblygrwydd ac ystod ehangach o gyfleoedd.

Rwy'n diolch i'r pwyllgor am ei gefnogaeth wrth fynd i'r afael â'r agenda hon ac yn nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod. Bydd yr adroddiad hwn, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses o'i baratoi, yn darparu gwybodaeth hanfodol i'n helpu i ddarparu'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i sicrhau, drwy weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol, bod prif ddata a data lleol sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth mor gynhwysfawr, cadarn a chyfredol â phosibl.

Ymateb – Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

Mae Tîm Ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ymgynghori â defnyddwyr ar raglen lawn yr Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes er mwyn cael adborth ar yr hyn y maent yn ei lunio ar hyn o bryd, yr hyn y gellid ei wella ac a oes unrhyw fylchau i'w helpu i ddeall y blaenoriaethau perthnasol y mae defnyddwyr yn eu cysylltu â dadansoddiadau penodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amseroldeb data drwy gynnwys canlyniadau blynyddol dros

dro (symud yr amserlen gyhoeddi ymlaen flwyddyn) a'r broses o lunio bwletin chwarterol yn cynnwys llai o ddata cadarn ond mwy diweddar.

**Argymhelliad 2.** Gwnawn argymhelliad pellach y caiff prif ddata a data lleol ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ei roi yn rheolaidd i bob asiantaeth sydd â rôl i'w chwarae mewn perthynas â datrys y broblem o sicrhau y caiff mesurau rhagweithiol ac adweithiol eu blaenoriaethu.

Ymateb - Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc. Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, byddwn yn edrych ar gyfleoedd i wella data a'r broses o rannu data rhwng sefydliadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.

Rydym hefyd yn gweithio gyda ffrwd waith y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd ar Fodelau Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaeth. Un o'r camau sy'n cael ei ddatblygu, yn seiliedig ar lwyddiant Prosiect Abertawe i fynd i'r afael â'r broblem o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yw cefnogi Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe i:

a. nodi, ar ffurf hygyrch, nodweddion ei ddull o leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gobeithir y bydd hyn yn helpu sefydliadau eraill i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;

b. datblygu dull o arfarnu a gwerthuso buddiannau ariannol ei ddull o leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Drwy wneud hynny, byddai'r ffrwd waith yn ceisio datblygu ymagwedd sydd yn berthnasol yn genedlaethol.

**Argymhelliad 3.** O gofio bod pobl ifanc anabl ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, argymhellwn y dylai cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddi data yn rheolaidd mewn perthynas ag anabledd a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ymateb - Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

Mae'r Bwletinau Ystadegol sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn defnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Gall maint bach y sampl fod yn broblem ond bydd ystadegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio cadernid ac addasrwydd cyhoeddi dadansoddiad o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn perthynas ag anabledd.

**Argymhelliad 4.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog, fel rhan o adolygiad Gyrfa Cymru, geisio gwella ei berfformiad o ran rheoli cofrestr genedlaethol gyson a chynhwysfawr o

bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a chynnal cronfa ddata hefyd sy'n gallu dod o hyd i swyddi gwag addas i bobl ifanc ddi-waith. Argymhellwn ymhellach y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fonitro perfformiad yn y maes hwn.

Ymateb - Derbyn mewn egwyddor.

Cyhoeddwyd adroddiad 'Uchelgeisiau'r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' ar 16$^{eg}$ Tachwedd 2010. Gall cronfa ddata bresennol Gyrfa Cymru fod yn ddefnyddiol fel sail ar gyfer adnodd 'olrhain a rheoli data' mwy cynhwysfawr i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan gynnwys datblygiadau 'cadw mewn cysylltiad'. Cafodd argymhelliad tebyg ei gynnwys yn adroddiad 'Uchelgeisiau'r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru', a chaiff ei ystyried pan gaiff Gyrfa Cymru ei uno fel rhan o ddatblygiadau'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Fodd bynnag, bydd y broses o lunio'r argymhelliad yn llwyr ddibynnol ar strwythur, cyllidebau a blaenoriaethau perthnasol Gyrfa Cymru yn y dyfodol.

O ran dod o hyd i swyddi gwag addas i bobl ifanc, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i lunio tri chynllun peilot i weld a allai dull personol o ddod o hyd i swyddi gwag addas i unigolion, wedi'i ategu gan hyfforddiant a mentora ôl-gyflogaeth, sicrhau bod mwy o bobl ifanc ddi-waith yn cael swyddi ac yn cadw'r swyddi hynny. Mae tri chynllun peilot y Gwasanaeth Paru Swyddi Gwag wedi bod yn mynd rhagddynt ers chwe mis. Caiff adroddiadau'r cynlluniau peilot eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob mis. Caiff gwerthusiad llawn o bob cynllun peilot ei gynnal, a gwneir argymhellion ar ddewisiadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth hwn ledled Cymru o hydref 2011.

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso dulliau awdurdodau lleol a rhanbarthol o fynd i'r afael â phroblem pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn llunio model a chanllawiau arfer gorau ar gyfer darparu a monitro gwasanaethau effeithiol.

Ymateb – Derbyn

Ceir llawer o enghreifftiau o arferion da ledled Cymru lle mae canlyniadau cadarn, adborth gan ddefnyddwyr a darparwyr a thystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar ran pobl ifanc. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwyddom fod nifer o awdurdodau lleol wedi llwyddo i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn eu hardaloedd. Ni ddylem ddyblygu gwaith - mae angen i ni ddysgu o brosiectau rydym yn gwybod sy'n gweithio a rhannu'r wybodaeth a'r arbenigedd hynny ledled Cymru.

Cynigiwn y dylid adeiladu ar y mentrau cadarnhaol hyn drwy ddefnyddio dull mwy gweithredol o ddelio ag awdurdodau lleol unigol ac ardaloedd lle ceir llawer o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd hyn yn cynnwys gwaith gydag awdurdodau i wella systemau ar gyfer canfod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'u hatgyfeirio, yn seiliedig ar dystiolaeth hysbys ynghylch ffactorau risg; y gwaith o gydlynu ymyriadau dilynol, gan gynnwys edrych ar y cyd-destun teuluol ehangach a'r camau sydd angen eu cymryd i

gefnogi'r teulu; a rôl ganolog ysgolion o ran canfod unigolion a'u hatgyfeirio i gael cymorth ychwanegol, a hefyd o ran llunio cwricwlwm priodol a hyblyg.

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai'r gwaith o lunio canllawiau clir, amlasiantaethol i sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio dull cynnar, cyson a holistaidd o nodi'r rheini sydd mewn perygl o adael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fod yn un o ganlyniadau adolygiad y Gweinidog o'r cymorth a roddir gan ei Adran i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac y dylid ymyrryd yn briodol ar gam cynnar.

Ymateb – Derbyn

Ni allwn aros nes bod pobl ifanc yn 16 oed cyn mynd i'r afael â'u problemau. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wella cyfleoedd bywyd plant yw drwy roi cymorth iddynt yn ystod eu blynyddoedd cynharaf, gan dorri cylchoedd negyddol sy'n rhan o fywydau rhai o'n plant mwyaf difreintiedig a rhoi cyfle iddynt dyfu, llwyddo a chyflawni. Er mwyn helpu'r teuluoedd hynny y mae angen ein cymorth ni arnynt fwyaf, mae'n rhaid iddynt allu cael gafael ar raglen gymorth ddi-dor, integredig a chynhwysfawr sy'n atgyfnerthu’r uned deuluol, yn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni canlyniadau gwell ac yn helpu i adeiladu cymunedau. Mae'n rhaid i ni edrych ar y broblem gyfan a nodi sut i'w datrys yn ystod y blynyddoedd cynharaf, gan gydnabod bod gan bobl amrywiaeth o resymau dros adael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae pwysigrwydd partneriaethau allweddol ar lefel genedlaethol a lleol a gwaith ymyrryd priodol ar bob gam yn allweddol ar gyfer cyflawni hyn.

At hynny, mae rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi teuluoedd ac i fynd i'r afael â thlodi plant, sef Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Blant ar 20$^{fed}$ Gorffennaf, yn hollol gefnogol i gyfeiriad yr argymhelliad hwn, sydd hefyd yn gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn rhoi gofynion statudol cyfredol ar waith i ategu addysg unigolion sy'n gadael gofal cyn iddynt gyrraedd 25. Dylai'r adolygiad gynnwys tystiolaeth gan unigolion sy'n gadael gofal ac sy'n rhan o systemau addysg bellach ac addysg uwch a'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ymateb - Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno bod cefnogi addysg unigolion sy'n gadael gofal yn hanfodol a bod sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau yn rhan bwysig o hynny. Byddem hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch drwy gydnabod yr arferion cydweithredol da rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach/uwch i gefnogi pobl ifanc a oedd mewn gofal.

Hefyd, mae cyfleoedd da eisoes ar gael ar gyfer ymgysylltu â'r unigolion sy'n gadael gofal eu hunain ond byddwn yn parhau i geisio eu barn ar eu hanghenion, yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a'r ffordd orau o wella eu cyfleoedd bywyd. Ein nod yw defnyddio ein hadnoddau i barhau i roi pwyslais mawr ar anghenion unigolion sy'n

gadael gofal a rhannu arferion da megis gwaith Sir Ddinbych o gysylltu cynghorwyr awdurdod lleol ag unigolion sy'n gadael gofal a darparu wyneb ar gyfer y term rhyfedd hwnnw, 'rhiant corfforaethol'.

Rhennir arfer gorau presennol mewn awdurdodau lleol hefyd, er enghraifft yn y Fforwm Unigolion sy'n Gadael Gofal a alluogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod darpariaeth gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal ac mae'n canolbwyntio ar ddatrysiadau. Mae pynciau i'w trafod yn cynnwys tai, addysg, cymorth ariannol a darparu help ymarferol ar sgiliau byw yn annibynnol. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd drwy'r fforymau hyn i lywio ein penderfyniadau, megis cael blaenoriaeth strategol i ddarparu cymorth ariannol i unigolion sy'n gadael gofal ar ffurf grant Trosglwyddo o Ofal, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rydym wrthi'n ymgynghori ar reoliadau drafft a fydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu bwrsariaeth o £2,000 i unigolion sy'n gadael gofal ac yn dewis dilyn cwrs ym maes addysg uwch.

Ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y DU i bennu safonau gofynnol mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael mewn colegau a phrifysgolion. Darperir cydnabyddiaeth o flaenoriaeth strategol uchel a mecanweithiau cefnogol gan Farc Ansawdd y DU, a ddyfernir gan Ymddiriedolaeth Frank Buttle. Mae pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru, Coleg Sir Gâr yn Sir Gaerfyrddin, Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Glan Hafren yng Nghaerdydd wedi cyflawni hyn hyd yma. Mae Coleg Menai yn gweithio ar gyflwyniad o dystiolaeth er mwyn cyflawni hyn.

Mae staff cymorth mewn sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch yn rhwydweithio ag unigolion mewn awdurdodau lleol - staff penodol mewn ysgolion, cydlynwyr addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal a thimau gadael gofal i sefydlu arferion cyfathrebu da, cysylltiadau gwasanaeth o ansawdd uchel â darparwyr addysg a hyfforddiant a darparwyr seiliedig ar waith. Enghraifft dda o hyn yw pan weithiodd Coleg Glan Hafren yng Nghaerdydd â thîm Plant sy'n Derbyn Gofal Caerdydd i gynnig cwrs a gynlluniwyd yn benodol i ddiwallu anghenion unigolion sy'n gadael gofal a'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r cwrs yn meithrin sgiliau sylfaenol ac mae'n ddigon hyblyg o ran ei hyd a mynediad iddo. Mae'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, sy'n gysylltiedig â maes Addysg Uwch, yn parhau i gynnal diwrnodau rhagflas ac maent yn ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal mewn ysgolion o 12 oed i feithrin uchelgais a'u hannog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant neu i ailymgysylltu â'r meysydd hyn.

**Argymhelliad 8.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried y ffordd orau o ehangu ac ariannu arferion gorau rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru, mewn cydweithrediad â rhaglenni awdurdodau lleol ac awdurdodau ysgolion ac i ategu'r rheini.

Ymateb – Derbyn

Mae adolygiad yn mynd rhagddo i fapio'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny. Gan amlaf, mae gwasanaethau'n cefnogi pobl ifanc ar bob cam o'u taith ac yn

ystod cyfnodau o newid. Fodd bynnag, yn aml cânt eu darparu gan gynlluniau a sefydliadau gwahanol nad ydynt bob amser yn cysylltu'n effeithiol â'i gilydd.

Bydd canlyniadau'r adolygiad yn sicrhau rhagor o gydweithredu a threfniadau cadarnach ar gyfer rhannu arferion da rhwng sefydliadau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, gyda'r bwriad o osgoi achosion o ddyblygu gwaith a defnyddio arian mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys symleiddio prosesau.

At hynny, byddwn yn gweithio gyda'r Loteri Fawr a'r sector gwirfoddol i wneud defnydd llawn o arian mewn cyfrifon segur i ariannu prosiectau arloesol i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru - er mwyn atal pobl rhag ymddieithrio a'u hannog i ailymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Argymhelliad 9.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn cynnwys cyflogwyr ar gam cynnar wrth weithio gyda dysgwyr, hyfforddwyr dysgu ac eraill er mwyn sefydlu dull mwy cydgysylltiedig o helpu pobl ifanc i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth neu brentisiaeth, ac yn arbennig o ran darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ymateb – Derbyn

Rwy'n hollol ymrwymedig i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i sicrhau gyrfa foddhaol, ac mae gweithio gyda sefydliadau a chyflogwyr allweddol yn hanfodol i gyflawni hyn.

Mae angen i ni sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i feithrin sgiliau addas er mwyn cael swyddi cynaliadwy. Dyma pam y byddwn yn treialu 'Llwybr newydd at Waith' ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed. Nid rhaglen newydd fydd hon, ond un llwybr hyblyg a chydlynol i bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol neu gynaliadwy ag un o'r prif opsiynau ôl-16. Bydd yn rhoi rhagor o ddewisiadau a chyfleoedd cyflogaeth gwell i bobl ifanc. Er enghraifft, byddai elfennau newydd yn cynnwys:

- Rhaglen profiad gwaith newydd a gwirfoddol a fydd yn targedu pobl ifanc 16 a 17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (sef y rhai anoddaf i'w cyrraedd) nad oes ganddynt y sgiliau na'r hyder efallai i ddechrau cwrs hyfforddi neu i gael gwaith;
- Cyfle yn y Farchnad Lafur Drosiannol (rhywbeth tebyg i Gronfa Swyddi'r Dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed) i bobl ifanc sydd am gael swydd yn hytrach na chyfle am hyfforddiant yn unig. Byddai'r person ifanc yn cael ei gyflogi am gyfnod o chwe mis drwy wasanaethau presennol a ddarperir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), gan gydweithio â'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf;
- elfen raddio a fyddai'n nodi cyflawniadau'r person ifanc a'i gynnydd tuag at y cam nesaf ar hyd y Llwybr.

Mae cydberthynas gadarn â chyflogwyr yn hanfodol i lwyddiant Llwybrau at Waith. Rydym wrthi'n ceisio cyfleoedd i weithio gyda chyflogwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau bod ein dull yn un cydgysylltiedig ac y cysylltir â chyflogwyr ar gam cynnar. Yng Nghynhadledd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) ym

mis Tachwedd 2010, rhoddwyd y cyfle i ddechrau'r broses ymgysylltu hon â darparwyr sy'n gweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus a roddodd gyfle i gynnal gweithdy ar rannu arfer da mewn perthynas â'r agenda ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc. At hynny, byddwn yn cynnal digwyddiad ym mis Mawrth 2011 a fydd yn ymgysylltu â chyflogwyr yn ogystal ag unigolion a'u hathrawon a hyfforddwyr i wella natur ac ansawdd profiad gwaith a lleoliadau gwaith ledled Cymru.

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn y dylai un Gweinidog arwain y gwaith o gydlynu strategaeth a chynlluniau gweithredu, monitro'r gwaith o weithredu hyn a bod yn atebol ar lefel genedlaethol gan fod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn fater sy'n berthnasol i nifer o Adrannau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymateb – Derbyn

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yw'r Gweinidog arweiniol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn dwyn ynghyd un rhaglen waith er mwyn hybu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc mewn ffordd strategol yng Nghymru. Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol mae Uned newydd wedi'i sefydlu i lywio polisïau a gweithgarwch arweiniol sy'n annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd yn sicrhau cydlyniant yn y dull adrannol cyffredinol o ddelio ag ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc.

**Argymhelliad 11.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru adolygu a diweddaru'r strategaeth gyfredol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel ei bod yn cwmpasu'r grŵp oedran 16 i 25, ac y dylent gyflwyno targed cenedlaethol newydd ar gyfer lleihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan sicrhau bod holl Adrannau perthnasol y Llywodraeth yn gyfrifol am ei gyflawni.

Ymateb - derbyn mewn egwyddor

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Ebrill y llynedd. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r amgylchedd economaidd wedi newid yn sylweddol. Y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yw'r Cynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Cynllun Gweithredu newydd yn edrych ar bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn ffordd ehangach, gan ganolbwyntio ar atal pobl ifanc rhag ymddieithrio, edrych ar gyfnodau allweddol o newid ym mywydau pobl ifanc ac ymgysylltu ag oedolion ifanc hyd at 25 oed.

Rwyf wrthi'n ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o reoli a monitro'r gwaith o leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad ar hyn yn y Flwyddyn Newydd.

**Argymhelliad 12.** Fel rhan o'n gwerthusiad a argymhellwyd o ddulliau awdurdodau lleol a rhanbarthol o ddelio â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru bennu asiantaeth arweiniol yn lleol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dylai'r asiantaeth hon gydlynu partneriaethau, nodi cyfrifoldebau, rheoli taith pobl ifanc rhwng un cam a'r llall a monitro perfformiad.

Ymateb – derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

Mae pwysigrwydd partneriaethau effeithiol, yn genedlaethol a lleol, wedi'u nodi'n gryf iawn drwy gydol y broses hon. Mae dull amlasiantaethol gyda lefelau uwch o gydweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn cael ei esgeuluso, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid, yn un o'r meysydd allweddol y bydd y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn mynd i'r afael ag ef. Mae eglurder o ran rolau, systemau olrhain, rhannu gwybodaeth a monitro perfformiad cadarn oll yn rhan allweddol o hyn. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yw un o'r cyfryngau ar gyfer cydgysylltu darpariaeth leol yn erbyn polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd ei lwyddiant yn amlwg dros amser ar ffurf canlyniadau gwell i bobl ifanc yng Nghymru.

**Argymhelliad 13.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion adolygu digonolrwydd y trefniant cyfansoddiadol presennol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith mewn cyd-destun datganoledig a gweithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn y DU i wneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y trefniant yn fwy effeithiol yn y dyfodol.
**Argymhelliad 14.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda chydweithwyr yn y DU i sicrhau bod cynghorwyr personol a gweithwyr allgymorth yn ffurfio rhan ganolog, yn hytrach na rhan ymylol, o weithgarwch y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd ei rhaglenni ymgysylltu.
**Argymhelliad 15.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau na fydd yr unigolion mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso ac y caiff y rheini sydd â'r angen mwyaf eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth dwys os bydd nifer fawr o bobl ifanc ddiwaith yn gwneud cais am gymorth o dan y Rhaglen Waith yn y dyfodol.

Ymateb i argymhellion 13-15 - derbyn

Y llynedd, llofnodwyd Fframwaith y Farchnad Lafur gan Weinidogion Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau a sefydlwyd Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i weithio ar lefel weithredol.

Mae ein gwaith gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn mynd rhagddo ac mae'r angen am hyblygrwydd wrth ddarparu rhaglenni newydd y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru yn allweddol i gyflawni darpariaeth effeithiol yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ni bennu llwybr cwsmer clir yng Nghymru lle mae ein hyfforddiant a'n darpariaeth yn ategu darpariaeth prif ffrwd y Ganolfan Byd Gwaith heb ddyblygu na dargyfeirio ei gwaith. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod cynigion am gymorth a gaiff eu

hariannu'n briodol o leiaf yn cyfateb i'r rheini sydd ar gael yn Lloegr a'r angen am ymatebion arloesol i anghenion penodol ein marchnad lafur.

Rwyf wedi comisiynu'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i ystyried y gwaith hwn ymhellach.

**Argymhelliad 16.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gydlynu'r gwaith o ddarparu prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a phrosiectau nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr UE ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn meithrin diwylliant o gydweithredu yn hytrach na diwylliant cystadleuol.

Ymateb – derbyn

Argymhellodd y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc y dylid cynnal adolygiad o'r arian a'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, neu sydd mewn perygl fod yn un o'r bobl hynny. Mae hwn yn mynd rhagddo ac mae tystiolaeth gychwynnol wedi awgrymu mai'r broblem yw bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei ddarparu gan gynlluniau a sefydliadau gwahanol nad ydynt bob amser yn cysylltu â'i gilydd yn effeithiol yn hytrach na diffyg darpariaeth. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn sicrhau rhagor o gydweithredu a threfniadau cadarnach ar gyfer rhannu arferion da rhwng sefydliadau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, gyda'r bwriad o osgoi achosion o ddyblygu gwaith a defnyddio arian mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys symleiddio prosesau. Ochr yn ochr â hyn, bydd WEFO hefyd yn adolygu prosiectau perthnasol o fewn Blaenoriaethau 1 a 2 ESF i sicrhau eu bod yn unol â chanlyniadau polisi'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc.

Bydd Rhaglen Waith newydd y Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn effeithio ar sut y darperir ESF yng Nghymru. Mae WEFO wrthi'n ystyried y goblygiadau a bydd yn gweithio gyda noddwyr prosiectau dros y misoedd nesaf i sicrhau bod gweithgarwch a ariennir drwy ESF yn parhau i ddangos gwerth ychwanegol yng ngoleuni'r Rhaglen Waith newydd.

**Argymhelliad 17.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu sut y gellid rhoi rhagor o gydnabyddiaeth i ddatblygu "sgiliau meddal" pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r rheini sydd mewn perygl o fod yn un o'r bobl hynny mewn lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Ymateb – derbyn

Bydd y 'Llwybr newydd at Waith' ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed yn ategu'r argymhelliad hwn drwy roi rhagor o ddewis i bobl ifanc a chyfleoedd gwell iddynt gael swyddi. Byddai'r elfen raddio yn nodi cyflawniadau'r person ifanc a'i gynnydd tuag at gam nesaf y Llwybr, ac mae hyn yn cynnwys meithrin sgiliau meddal.

At hynny, bydd y Rhaglen Hyfforddeiaeth ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed a Chamau i Gyflogaeth ar gyfer unigolion 18 oed neu hŷn yn disodli'r rhaglen olynol i'r Rhaglen Adeiladu Sgiliau, sef ein prif raglen gyflogadwyedd ar gyfer y rheini nad ydynt mewn cyflogaeth. Mae'r Hyfforddeiaeth yn anelu at ddarparu dull dysgu unigol i bobl

ifanc sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn ac yn cynnig hyblygrwydd ac ystod ehangach o gyfleoedd.

At hynny, comisiynwyd Canolfan Gymorth Ranbarthol y Pwyllgor Systemau Gwybodaeth ar y Cyd (JISC) i lunio adnodd ar-lein y gall darparwyr ei ddefnyddio i olrhain a mesur cynnydd dysgwyr. Mae'r adnodd yn galluogi dysgwyr i asesu eu hunain yn erbyn cyfres o ddatganiadau ar ddyddiad dechrau eu dysgu, yn y canol ac ar y diwedd. Mae'r tiwtor hefyd yn cynnal yr un asesiad ar yr un adegau yn ystod y broses ddysgu. Bydd canlyniadau hyn yn arwain at sgôr datblygu i'r dysgwr hwnnw.

**Argymhelliad 18.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddwyr ymgysylltu neu allgymorth ar gael i ymyrryd ar unrhyw gam yn ystod bywyd person ifanc i roi cymorth uniongyrchol ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig â theulu, arian, addysg, cyflogaeth neu iechyd.

Ymateb - derbyn mewn egwyddor

Mae'n bwysig cofio bod profiad pob plentyn a pherson ifanc yn unigryw ac mae angen i ni sicrhau bod ein hymagwedd yn bersonol drwy gydol bywyd y plentyn. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i sicrhau gyrfa dda yn y dyfodol. Felly, mae dull amlasiantaethol gyda lefelau uwch o gydweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn cael ei esgeuluso, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid, yn un o'r meysydd allweddol y bydd y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn mynd i'r afael ag ef.

Mae rôl yr Hyfforddwr Dysgu yn rhan graidd o'r Llwybrau Dysgu 14-19. Y nod yw cefnogi pobl ifanc i feithrin sgiliau er mwyn dysgu a goresgyn rhwystrau i ddysgu. Mae'r Cynllun Gweithredu yn argymell y dylid ymestyn y model Hyfforddwr Dysgu i blant 10 i 14 oed er mwyn rhoi mwy o gymorth dysgu a chymorth dysgu gwell i bobl ifanc. Gall hyn wneud i'r dysgwr deimlo'n fwy hyderus, yn fwy galluog a'i annog i ymgysylltu gan arwain at lefelau presenoldeb a chyflawniad uwch a lleihau'r tebygolrwydd y bydd y person ifanc yn ymddieithrio ac mewn perygl o fod yn berson nad yw mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cynllun peilot hyfforddwr dysgu ar gyfer plant rhwng 11 a 13 oed i ymchwilio i'r costau a'r buddiannau perthnasol sy'n gysylltiedig â chyflwyno hyn ledled Cymru. Caiff y cynllun peilot ei gynnal yn ystod 2011/12. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu dull darparu ar gyfer y cynllun peilot, yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd h.y. blynyddoedd 6 a 7.

Yn olaf, un o'r newidiadau allweddol rhwng manyleb gyfredol y rhaglen ddysgu seiliedig ar waith a manyleb y rhaglen a fydd yn ei dilyn o fis Awst 2011 yw y bydd yn ofynnol i Ddarparwyr Dysgu ddarparu cymorth Hyfforddwr Dysgu a chanllawiau o dan gontract yn unol â'r Llwybrau Dysgu 14-19 ar bob lefel o raglenni ieuenctid. Bydd pedwar maes o gymorth dysgu, sef:

- Cymorth Hyfforddwr Dysgu - y gallu i gysylltu â hyfforddwr dysgu penodol naill ai yn sefydliad y darparwr neu drwy drydydd parti, a fydd yn rhoi cyngor i'r dysgwr ar sut i wneud y gorau o'i allu ei hun a'i sgiliau dysgu.

- Mynediad at Gymorth Personol - mynediad at y cymorth personol sydd ar gael drwy Wasanaethau Cymorth Dysgu, os oes eu hangen ar y dysgwr fel rhan o'i Lwybr Dysgu 14-19.

- Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau ar Yrfaoedd - yr hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chanllawiau arbenigol a diduedd ar yrfaoedd gan gynghorwyr proffesiynol Gyrfa Cymru.

- Y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith - Yr hawl i fanteisio ar raglenni'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith fel y rhagnodir gan Weinidogion Cymru.